Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Pedair Priffordd Fawr

# Dyluniadau o Fyrddau Dehongli a Chyfeirbyst Adroddiad Cryno o'r Adborth

**Chwefror 2024**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Adroddiad Cryno o’r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o’r Pedair Priffordd Fawr**

# Cynnwys


Pwrpas yr adroddiad hwn 3

Dadansoddiad o’r cam adborth i ddyluniadau cyfeirbyst a byrddau dehongli 3

Data meintiol 4

Data ansoddol 7

Casgliad 10

Y Camau Nesaf 10

# Adroddiad Cryno o'r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o'r Pedair Priffordd Fawr

## Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r adborth a dderbyniwyd ynglŷn â'r dyluniadau amrywiol o gyfeirbyst a byrddau dehongli ar gyfer y prosiect Pedair Priffordd Fawr yn Llangollen. Ni fydd yr adroddiad ei hun yn gwneud unrhyw argymhellion am y cynigion cyffredinol ond bydd safbwyntiau budd-ddeiliaid a chymuned ehangach Llangollen yn cael eu hystyried yn rhan o'r dyluniad terfynol ar gyfer y cynllun.

## Dadansoddiad o'r cam adborth i ddyluniadau cyfeirbyst a byrddau dehongli

Rhannodd y Cyngor y dyluniadau cychwynnol ar-lein ac yn Llyfrgell Llangollen o 1 Medi tan 8 Hydref 2023 i gasglu adborth gan y cyhoedd.

Cafwyd 37 o ymatebion yn uniongyrchol drwy Borth Ymgysylltu Sgwrs y Sir neu drwy holiaduron papur a gwblhawyd.  Ond dylid nodi na atebodd pob un o'r ymatebwyr yr holl gwestiynau.

Edrychwyd ar y dyluniadau 194 o weithiau ar-lein, cafodd 139 o holiaduron Saesneg ac 54 o holiaduron Cymraeg eu lawrlwytho o'r porth ymgysylltu.

| **Pa rai o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Rwy'n byw ac yn gweithio yn Llangollen | **12** | **32** |
| Rwy'n byw yn Llangollen ond yn gweithio'n rhywle arall | **7** | **19** |
| Rwy'n gweithio yn Llangollen ond yn byw yn rhywle arall | **5** | **14** |
| Rwy'n ymweld â Llangollen o rywle arall yn Sir Ddinbych | **7** | **19** |

### Adroddiad Cryno o’r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o’r Pedair Priffordd Fawr



| | | |
|---|---|---|
| Rwy’n ymweld â Llangollen o rywle arall (nid yn Sir Ddinbych) | **4** | **11** |
| Rwy’n Gynghorydd Sir / Cyngor Tref / aelod o Gyngor Cymuned gerllaw | **2** | **5** |

## Data meintiol

Cafodd data ei gasglu i’n helpu ni i ddeall pa ganran o’r holl gyfranogwyr a oedd yn cefnogi’r dyluniadau cyfeirbost a’r byrddau dehongli.

| **A ydych yn hoffi’r dyluniad bychan a chul?** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Ydw | **19** | **76** |
| Nac ydw | **6** | **24** |

| **Sylwadau pellach (lliw a ffefrir)** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Lliwiau cryf | **8** | **38** |
| Lliwiau gwan | **6** | **29** |
| Du a gwyn | **3** | **14** |
| Dim arwyddion | **4** | **19** |



## Adroddiad Cryno o’r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o’r Pedair Priffordd Fawr

| **A ydych yn hoffi’r dyluniad mawr a llydan?** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Ydw | **14** | **64** |
| Nac ydw | **8** | **36** |

| **Sylwadau pellach (lliw a ffefrir)** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Lliwiau cryf | **8** | **53** |
| Lliwiau gwan | **4** | **27** |
| Du a gwyn | **2** | **13** |
| Dim arwyddion | **1** | **7** |










## Adroddiad Cryno o'r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o'r Pedair Priffordd Fawr

| **A ydych yn hoffi'r dyluniad arwyddbost?** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Ydw | **13** | **54** |
| Nac ydw | **11** | **46** |

| **Os ydw, pa liw sydd orau gennych ar gyfer y cyfeirbyst arwyddbyst?** | | |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Arwyddbyst gwyn gyda lliwiau cryf | **5** | **33** |
| Arwyddbyst gwyn gyda lliwiau gwan | **1** | **7** |
| Arwyddbyst gwyn gyda du a gwyn | **3** | **20** |
| Arwyddbyst du gyda lliwiau cryf | **2** | **13** |
| Arwyddbyst du gyda lliwiau gwan | **2** | **13** |
| Arwyddbyst du gyda du a gwyn | **2** | **13** |






## Adroddiad Cryno o’r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o’r Pedair Priffordd Fawr

| **Oes yna unrhyw straeon lleol yr hoffech chi ddarllen amdanyn nhw ym mhob lleoliad?** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
|---|---|---|
| **Ymateb** | **Nifer yr Ymatebwyr** | **Canran yr Ymatebwyr** |
| Hanes Camlas Llangollen | **17** | **100** |
| Atyniad hanes y lanfa a hen warws y gamlas | **17** | **100** |
| Hanes y felin gotwm | **17** | **100** |
| Gwybodaeth am y cwt tyrbin | **17** | **100** |
| Hanes cyfnod y Great Western Railway (GWR) i Dr. Beeching | **17** | **100** |
| Selogion Rheilffordd Llangollen | **17** | **100** |

## Data ansoddol

Gweler isod amrywiaeth o sylwadau a gafwyd gan gyfranogwyr a fydd yn ein helpu i ddeall yr hyn y maen nhw’n ei hoffi, a’r hyn nad ydynt yn ei hoffi am y dyluniadau yn ogystal ag awgrymiadau pellach am yr hyn yr hoffen nhw ei weld yn deillio o’r prosiect.

## Dyluniadau bach a chul

| **Ymateb** |
|---|
| Mae’r dyluniadau a gynigir braidd yn anniben ac yn anhygyrch i unrhyw un sydd ag amhariad ar y golwg. Mae’r dyluniad yn llawer rhy brysur i sylwi ar unrhyw wybodaeth berthnasol. Hefyd, gan fod yna gymaint o wybodaeth a lluniau anhygyrch (fel mapiau), mae’n rhaid i faint y ffont fod yn llai. Allan o’r lliwiau sydd ar gael mae du a gwyn yn llawer mwy eglur. |
| Dylid defnyddio lliw cryf. Mi fydd yn llawer mwy clir yn arbennig i’r rheiny gyda golwg gwael. Mae du yn llwm, ac mae lliwiau gwan yn rhy olau. |

## Adroddiad Cryno o'r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o'r Pedair Priffordd Fawr

| |
|---|
| Byddai'n well gennyf i ddim arwyddion o gwbl. Mae'r strydoedd yn llawn o arwyddion diangen yn barod sy'n cyflawni ychydig iawn o ddefnydd ar wahân i wastraffu arian y trethdalwr pan fydd angen ei newid am fod rhywun wedi'u ddifrodi/paentio graffiti drostynt. Gwelaf hefyd nad ydych wedi ychwanegu unrhyw ddarpariaeth Braille i aelodau'r cyhoedd sydd gyda gweledεdd cyfyngedig neu sy'n ddall. |
| Mae'n well gennyf y du a gwyn ar gyfer yr arwyddion ar hyd ffyrdd, gan y byddan nhw'n llai, a'r arwyddion trawiadol yn haws i'w ddarllen yn y cyferbyniad uchel. Maen nhw'n gweithredu fel arwyddion nodau ffordd bychain lle byddai arwyddion mwy o ran maint yn rhoi mwy o fanylder. Byddwn yn defnyddio'r arwyddion hyn mewn lliw cryf. Byddai angen arwyddion unffurf, gan fod diffyg cyfatebiaeth a chysondeb ar y funud, ac yn aml mae yna ormod o arwyddion sydd ddim yn rhoi'r dyfnder o lefydd i ymweld â nhw i ymwelwyr pan fyddan nhw yma. |
| Lliwiau cryf. Yn ddelfrydol dylai fod yna wrthgyferbyniad mawr rhwng y lliw cefndirol a'r ffont er mwyn ei gwneud yn haws i'w ddarllen ac o ran amrywiaeth weledol. Hefyd defnyddio ffont fel comic sans ar gyfer niwroamrywiaeth hefyd. Mae du a gwyn yn rhy eithafol ar gyfer llygaid sensitif a galluoedd darllen nriwroamrywiol. |
| Beth sydd o'i le mewn cael pyst ac arwyddion treftadaeth hyfryd sydd gennym yn barod, maen nhw'n cyd-fynd yn llawer gwell gyda chymeriad y dref, a dim ond cot o baent newydd sydd ei angen arnyn nhw. |

## Dyluniadau mawr a llydan

| **Ymateb** |
|---|
| Mae lliwiau trawiadol yn fwy tebyg o fod yn ddarllenadwy ar gyfer y rhan fwy eang o'r gymuned. Ydi'r ffont yn addas i unigolion dyslecsig? |
| Mae'r fformat ychydig yn fwy eglur na'r bwrdd darganfod eich ffordd ond mae'n dal i deimlo'n brysur gyda llawer o luniau. |
| Lliwiau trawiadol. Oes yna opsiwn i gael bwrdd mwy yn y maes parcio o bosib ond byrddau llai mewn lleoliadau lle mae pobl angen cael eu cyfeirio. |
| Mae'r rhai mawr angen sefyll allan ac felly byddwn yn dweud bod angen i'r rhain fod mewn lliwiau trawiadol. |

## Adroddiad Cryno o'r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o'r Pedair Priffordd Fawr

| |
|---|
| Arwyddion fertigol bach gan y byddai meintiau ymarferol gyda lliwiau golau yn fwy esthetaidd ac yn fwy derbyniol yn yr Ardal Gadwraeth. |

## Dyluniad Arwyddbost

| Ymateb |
|---|
| Yn aml mae'n anodd ymddiried yn llwyr mewn arwyddbyst am eu bod nhw'n cael eu troi gan y gwynt ac weithiau mae pobl yn eu gwthio nhw i gyfeiriad gwahanol. Mae yna ormodedd o arwyddion ar lwybrau troed a hoffwn weld cyn lleied â phosib ohonyn nhw. |
| Dydw i ddim yn ffafrio unrhyw ddewis ac mae'n debyg ei fod yn dibynnu ar liwiau'r ardal. Oes lliwiau sy'n gweithio orau i bobl gyda nam ar y golwg neu anawsterau dysgu? Byddai'n dda dewis rhywbeth lle gall cymaint o bobl ag sy'n bosib eu mwynhau neu elwa ohonynt. |
| Mae'n llawer gwell gen i'r arwyddion cul neu'r rhai llydan gyda lliwiau llachar na'r arwyddbyst, a llawer o wybodaeth i bobl leol ac ymwelwyr i'w darllen. |
| Ar hyn o bryd mae gennym gyfeirbwyntiau haearn bwrw hyfryd ar hyd y dref sy'n ddu a gydag aur fel amlinelliad i'r geiriau. Mae'n rhain yn edrych yn ddel iawn yn yr ardal a dylid efelychu hyn drwy ddefnyddio pyst a lliwiau sydd union yr un fath. Parchwch ein tref a gwarchod ei nodweddion bach ond hardd. |
| Mae'n well gen i'r byrddau lliwgar i'r arwyddbyst, llawer deliach i'r ardal gan wneud Llangollen sefyll allan o drefi eraill yn yr ardal. Syniad hyfryd a byddai'n helpu twristiaid a hefyd pobl leol gan fod y strydoedd yn gallu bod yn brysur iawn pan fydd twristiaid ddim yn gwybod i le maen nhw'n mynd. |

## Sylwadau pellach wedi'u derbyn am ddyluniadau'r dehongliadau

| Ymateb |
|---|
| Amser i gerdded at gyrchfannau wrth gerdded yn araf a chyflym, a llwybrau cerdded cod lliw o amgylch y dref gyda lliwiau ar byst ar hyd y ffordd |
| Cyfarwyddiadau i'r cyfleusterau toiledau agosaf |

## Adroddiad Cryno o’r Adborth ar Ddyluniadau Cychwynnol o’r Pedair Priffordd Fawr

| |
|---|
| Codau QR ar gyfer dolenni pellach i wybodaeth sy’n cynnwys hanes a Pha 3 Gair |
| Gwybodaeth am yr Eisteddfod ar fyrddau dehongli |

## Sylwadau pellach wedi’u derbyn am straeon lleol yr hoffai pobl ddarllen amdanyn nhw

| Ymateb |
|---|
| Dolenni i’r rheiny wedi’u henwi ar y senotaff rhyfel yn y dref. Cod QR i’r wefan sy’n cynnwys gwybodaeth fanwl am y rheiny wedi’u lladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a’r Ail Ryfel Byd |
| Hanes trydan yn Llangollen. Hanes trydan yn Llangollen. O bŵer dŵr a’r golau trydan cyntaf, i beiriannau wedi’u pweru gan ddiesel yn y felin ŷd, i gysylltiad grid a MANWEB. Codi uchder y bont ar gyfer y rheilffordd, a’r orsaf wreiddiol cyn y bont. |

## Casgliad

Wrth gydnabod fod cyfranogiad yn isel gyda dim ond 37 wedi ymateb, roedd y canlyniadau’n tynnu sylw at y dymuniadau canlynol i’w hystyried:

- Byddai’n well gan y rhan fwyaf o bobl gael dyluniadau bach a chul gyda lliwiau cryf
- Lliwiau cryf yw’r dewis a ffefrir ar gyfer yr holl arwyddion arfaethedig
- Mae’n well gan gyfranogwyr gyfuniad o gyfeirbyst a byrddau dehongli yn hytrach na’r arwyddbyst traddodiadol
- Mae’r rheiny sy’n hoffi arwyddbyst yn ffafrio arwyddion gwyn gyda lliwiau cryf

## Y Camau Nesaf

Hoffai’r Cyngor achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am rannu eu meddyliau a’u barn am ddyluniadau cyfeirbyst a byrddau dehongli ar gyfer y prosiect Pedair Priffordd Fawr.

O ran ymgynghori ac ymgysylltu, ni fyddwn yn gofyn am unrhyw adborth pellach ar hyn o bryd. Bydd y dyluniadau cyfeirbyst a byrddau dehongli terfynol yn cael eu rhannu gyda’n

budd-ddeiliaid a'r cyhoedd unwaith y byddwn wedi cytuno arnyn nhw dros fisoedd y gwanwyn cyn eu gosod yn y dref.